# Gwerthiannau preifat ac arwerthiannau cist car

## Beth ddywed y gyfraith

Pan fyddwch chi'n prynu nwyddau oddi wrth unigolyn preifat, er enghraifft, trwy ymateb i hysbyseb yn y papur lleol neu mewn arwerthiant cist car, mae'r gyfraith yn dweud fod yn rhaid i'r nwyddau:

- **gyd fynd â'u disgrifiad.** Mae hyn yn golygu fod yn rhaid iddynt fod fel y'u disgrifiwyd gan y gwerthwr. Mae hyn yn cynnwys unrhyw ddisgrifiad sydd ar y label. Er enghraifft os yw gwerthwr yn dweud fod gan gar injan maint 1800cc, rhaid iddo beidio cael injan maint 1100cc.

Mae'n bwysig eich bod yn gwirio'r nwyddau cyn eu prynu, oherwydd yn gyffredinol nid oes rhaid i nwyddau a brynir oddi wrth werthwr preifat **fod yn rhydd o ddiffygion**. Sut bynnag, os yw'r gwerthwr yn dweud wrthych fod y nwyddau yn **gweithio'n dda**, ac maen nhw'n troi allan i fod yn ddiffygiol, yna efallai y gallwch gymryd camau ar y sail **nad yw'r nwyddau yn cyd-fynd â'u disgrifiad** (gweler isod).

Weithiau mae pobol sy'n gwerthu nwyddau fel rhan o'u busnes **yn esgus bod yn werthwyr preifat**, oherwydd wedyn mae gan y defnyddiwr lai o hawliau. Mae hyn yn **drosedd**, ac felly os ydych yn amau fod gwerthwr preifat mewn gwirionedd mewn busnes fe ddylech chi roi gwybod i Gyswllt Defnyddwyr ar 0845 404 0506. Os ydych chi'n prynu nwyddau oddi wrth rywun sy'n esgus bod yn werthwr preifat, fe allwch **fynnu ar yr un hawliau a phe byddech wedi prynu'r nwyddau mewn siop**. Er enghraifft, os ydyw'r nwyddau'n ddiffygiol, efallai y gallwch gael eich arian yn ôl.

Mae'n drosedd i rywun werthu car **sy ddim yn ddiogel ar gyfer y ffordd fawr**.

Gall y cwmni cerdyn credyd fod yr un mor atebol am unrhyw dor cytundeb os yw'r gwerthwr yn fasnachwr, ac os ydyw:

- wedi trefnu cyllid i chi i dalu am y nwyddau; *neu*
- os ddefnyddioch chi eich **cerdyn credyd** i dalu am y nwyddau; *neu*
- os gostiodd y nwyddau mwy na £100 a llai na £30,000.

## Eich hawliau os ydyw'r nwyddau'n ddiffygiol

**Ad-daliad**
Mwy na thebyg fyddwch chi ddim yn gallu dychwelyd (**gwrthod**) nwyddau diffygiol a chael eich arian yn ôl oherwydd **nid oes rhaid** i nwyddau a brynwyd oddi wrth werthwyr preifat **fod yn rhydd o ddiffygion**.



Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

**Gwarantau**
Os rhoddir **gwarant** gyda nwyddau a brynwyd oddi wrth werthwr preifat neu mewn arwerthiant preifat, mae'n annhebygol y gallwch ei ddefnyddio oherwydd fel arfer gellir defnyddio gwarantau gan y person brynodd y nwyddau yn y lle cyntaf yn unig.

## Iawndal

**Efallai y bydd gennych hawl i gael iawndal os:**

- yw'r cytundeb wedi'i dorri (**tor-cytundeb**). Enghraifft o hyn yw os bydd y gwerthwr wedi disgrifio nwyddau fel rhai **sy'n gweithio'n dda** ac maen nhw'n troi allan i fod yn ddiffygiol. Sut bynnag, yn ymarferol, gall fod yn anodd profi fod y gwerthwr wedi dweud hyn, oni bai ei fod mewn hysbyseb ysgrifenedig neu fod tyst ar gael; *neu*
- os yw rhywun wedi'i anafu gan gerbyd **sy ddim yn ddiogel ar gyfer y ffordd fawr**. Mewn amgylchiadau felly fe ddylech chi riportio'r mater i Gyswllt Defnyddwyr ar 0845 404 0506; *neu*
- os yw'r gwerthwr yn fwriadol wedi rhoi **datganiad ffug** ynglŷn â'r nwyddau er mwyn eich perswadio i'w prynu.

Mae swm yr iawndal yn dibynnu ar ddifrifoldeb yr anaf neu'r broblem. **Fe ddylech chi bob amser gael cyngor cyfreithiol cyn penderfynu derbyn iawndal am anaf personol neu beidio.**

## Sut i ddatrys eich problem

Penderfynwch beth yw'ch hawliau ac yna cysylltwch â'r gwerthwr. Dylai'r camau canlynol ddatrys y broblem:-

- **peidiwch â defnyddio'r nwyddau mwyach**
- **dowch o hyd i brawf eich bod wedi prynu**. Bydd derbynneb, taleb cerdyn credyd neu fonyn siec yn gwneud y tro.
- **cysylltwch â'r gwerthwr** ac esboniwch eich problem yn bwyllog ond yn gadarn a gofyn am yr hyn y dymunwch ei gael**.**
- **os ydyw'r gwerthwr yn rhoi cynnig i chi,** fe allwch naill ai ei dderbyn neu barhau i **drafod.** Byddwch yn realistig yn yr hyn y byddwch yn ei dderbyn. Efallai na chewch chi gynnig gwell wrth fynd i'r llys.
- **os yw'r mater yn dal heb ei ddatrys,** ysgrifennwch at y gwerthwr gan ail adrodd eich cwyn a rhowch 14 diwrnod iddynt i ddatrys y broblem, neu fe fyddwch yn ystyried cymryd camau cyfreithiol**.**. Anfonwch y llythyr gyda **dosbarthiad wedi'i gofnodi** gyda chopi i brif swyddfa'r cwmni, os oes un. **Cadwch gopïau** o bob llythyr a nodyn o unrhyw alwadau ffôn mewn cysylltiad â'r broblem.


Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

- **os yw'r gwerthwr yn gwrthod gwneud unrhyw beth**, neu'n gwneud cynnig terfynol nad ydych yn fodlon ei dderbyn, yr unig ddewis arall sydd gennych yw mynd i'r llys. **Cofiwch, mynd i'r llys yw eich opsiwn olaf.** Cyn dechrau achos llys mae angen i chi ystyried os oes gennych ddigon o **dystiolaeth.** Mae angen i chi ddarganfod hefyd os oes gan y cwmni **ddigon o arian i dalu eich hawliad**. Nid yw'n werth erlyn person neu gwmni sydd heb arian. **Os ydych chi wedi colli arian oherwydd nwyddau a brynwyd mewn arwerthiant preifat, peidiwch â gwastraffu mwy o arian ar achos na allwch ei ennill.**

## Cymorth ychwanegol

### Y Ganolfan Cyngor ar Bopeth

Mae'r Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn rhoi cyngor cyfrinachol, diduedd ac annibynnol yn rhad ac am ddim i'ch helpu chi i ddatrys eich problemau. I ddod o hyd i'ch CAB agosaf, gan gynnwys y rheiny sy'n rhoi cyngor drwy e-bost, cliciwch ar CAB agosaf, neu edrychwch yn eich llyfr ffôn dan y llythyren C.

### Gwybodaeth arall ar Adviceguide a allai eich helpu

- Credyd
- Diogelwch
- Dechrau achos llys
- Nwyddau
- Ceir ail law
- Prynu ar safleoedd ocsiwn y rhyngrwyd
- Gwarantau
- Gwasanaethau

**Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith. Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr, Cymru a'r Alban yn unig.**

**Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 19 Awst 2008, a chaiff ei adolygu bob mis. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio os yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir. Neu rhowch glic ar ein gwefan - - www.adviceguide.org.uk - lle gallwch lawr lwytho copi diweddaraf.**

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr